# PWYLLGOR TRWYDDEDU

**Dydd Mercher, 25 Hydref 2017**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd E.G. Thomas (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** J.M. Charles, A. Davies, C.A. Davies, P.M. Edwards, R.E. Evans, W.T. Evans, A.L. Fox, J.K. Howell, H.I. Jones and J.E. Williams.

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
S.E. Watts, Rheolwr Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd;
J. Power, Uwch Swyddog Trwyddedu;
P. Booth, Swyddog Trwyddedu;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin – 10:00am - 12:10pm**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr J.G. Prosser a D.E. Williams.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod. | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| A. Davies | 7 – Mr Adrian Ricky Parry<br>Cais am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat | Mae ef yn adnabod yr ymgeisydd. |
| R. Evans | 6 – Mr Jeffrey John<br>Cais am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat | Mae ef yn adnabod yr ymgeisydd. |
| R. Evans | 7 – Mr Adrian Ricky Parry<br>Cais am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat | Mae ef yn adnabod yr ymgeisydd. |
| H. I. Jones | 8 - Cais am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat | Mae ef yn adnabod yr ymgeisydd. |
| T. Evans | 8 - Cais am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat | Mae ef yn adnabod yr ymgeisydd. |

| | Rhif y Cofnod. | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| Mr M Price | 3 – Mr John Charles Griffiths<br>Cais am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat | Mae ef yn adnabod yr ymgeisydd. |

3. **CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI HURIO PREIFAT - MR JOHN CHARLES GRIFFITHS**

[NODER: Gan iddo ddatgan buddiant yn eitem hwn yn gynharach, gadawodd Mr Mike Price, Cynrychiolydd Awdurdod yr Heddlu cyn i'r Pwyllgor ystyried y mater a phenderfynu arno.]

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr John Charles Griffiths, 3 Talyclun, Llangennech, Llanelli i adnewyddu ei Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Argymhellodd Rheolwr Diogelu'r Amgylchedd fod cais Mr Charles yn cael ei ganiatáu.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, ganiatáu cais Mr John Charles am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.**

4. **TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT - MR WAYNE ROYSTON HALPIN**

Mr Wayne Royston Halpin, Fflat 8, Soroptimist House, Greenhill Close, Caerfyrddin am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat. Rhoddodd yr ymgeisydd wybod i'r Pwyllgor ei fod wedi symud tŷ yn ddiweddar i Greenhill House, Greenhill Close, Caerfyrddin.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Halpin ynghylch ei gais a'r materion a godwyd.

Argymhellodd Rheolwr Diogelu'r Amgylchedd fod cais Mr Halpin yn cael ei ganiatáu a'i fod yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

Yna:

**PENDERFYNWYD, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, ganiatáu cais Mr Wayne Royston Halpin am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a rhoi rhybudd iddo ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

5. **CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT - MR RADOSLAW ANDRZEJ WOJTASIAK**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr Radoslaw Andrzej Wojtasiak, 15 Heol Langland, Llanelli am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Wojtasiak ynghylch ei gais a'r materion a godwyd a chafwyd sylwadau gan gynrychiolydd yr heddlu

Argymhellodd Rheolwr Diogelu'r Amgylchedd fod cais Mr Wojtasiak yn cael ei ganiatáu a'i fod yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

Yna:

**PENDERFYNWYD, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, ganiatáu'r cais a gyflwynwyd gan Mr Radolsaw Andrzej Wojtasiak am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a rhoi rhybudd iddo ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

**6. CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT - MR JEFFREY JOHN**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr Jeffrey John, 30 Stafford Street, Llanelli am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr John ynghylch ei gais.

Argymhellodd Rheolwr Diogelu'r Amgylchedd fod cais Mr John yn cael ei wrthod.

Yna:

**PENDERFYNWYD cynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

(NODER: Ar yr adeg hon, bu i'r Cynghorydd R. Evans ddatgan buddiant, gadawodd Siambr y Cyngor ac ni chymerodd rhan mewn unrhyw benderfyniadau).

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

**PENDERFYNWYD wrthod y cais a gyflwynwyd gan Mr Jeffrey John am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.**

RHESYMAU:
Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, atebion yr ymgeisydd i'r Pwyllgor a'r ffeithiau a gyfaddefwyd ganddo, daeth y Pwyllgor i'r casgliad nad oedd yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded.

**7. CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT - MR ADRIAN RICKY PARRY**

(NODER: Gadawodd y Cynghorwyr A. Davies a H.I Jones, a oedd wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach, Siambr y Cyngor tra bod y Pwyllgor yn ystyried y mater).

(NODER: Ymunodd y Cynghorydd T. Evans â'r cyfarfod).

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr Adrian Ricky Parry, 10 Dan yr Allt, Felin-foel, Llanelli, am drwydded yrru ddeuol ar gyfer cerbyd hacnai/hurio preifat

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Parry ynghylch ei gais a'r materion a godwyd.

Argymhellodd Rheolwr Diogelu'r Amgylchedd fod cais Mr Parry yn cael ei wrthod.

Yna:

**PENDERFYNWYD cynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

**PENDERFYNWYD wrthod y cais a gyflwynwyd gan Mr Adrian Ricky Parry am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.**

RHESYMAU:
Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, atebion yr ymgeisydd i'r Pwyllgor a'r ffeithiau a gyfaddefwyd ganddo, daeth y Pwyllgor i'r casgliad nad oedd yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded.

**8. CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT - MR MARK EDWARD JOHN**

(Noder: Ar yr adeg hon, bu i'r Cynghorydd H.I. Jones ddatgan buddiant a gadawodd Siambr y Cyngor tra oedd y Pwyllgor yn ystyried y mater a phenderfynu arno).

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr Mark Edward John of Cedars, Mount Pleasant, Llangynnwr, Caerfyrddin am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr John ynghylch ei gais a'r materion a godwyd.

Argymhellodd Rheolwr Diogelu'r Amgylchedd fod cais Mr John yn cael ei wrthod.

Yna:

**PENDERFYNWYD cynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

(Noder: Ar yr adeg hon bu i'r Cynghorydd W.T. Evans ddatgan buddiant a gadawodd Siambr y Cyngor tra oedd y Pwyllgor yn penderfynu ar y cais).

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

**PENDERFYNWYD wrthod cais Mr Mark Edwards John.**

RHESYMAU
Ar ôl ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd, roedd y Pwyllgor o'r farn nad oedd Mr John yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded ar hyn o bryd.

**9. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD YR IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU "B" A GYNHALIWYD AR 19EG MEDI, 2017.**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod Is-bwyllgor Trwyddedu 'B' a gynhaliwyd ar 19eg Medi, 2017, yn gofnod cywir.**

**10. TLLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD AR 14EG MEDI, 2017.**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 14eg Medi 2017, gan eu bod yn gywir.**

_________________________ ___________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**